Kirsty Williams AS
Gweinidog Addysg
Llywodraeth Cymru
Ty Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

19 Awst 2020

Annwyl Weinidog

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Awst 2020, a'r Cyfarwyddyd cysylltiedig yn cadarnhau eich cyhoeddiad y bydd dysgwyr yng Nghymru yn cael eu graddau asesu canolfan o ystyried penderfyniadau mewn mannau eraill. Yn unol â'r Cyfarwyddyd hwnnw, gallaf gadarnhau y byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i CBAC roi eu graddau asesu canolfan i ddysgwyr ar gyfer TGAU, Uwch Gyfrannol (UG), Safon Uwch a chymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

Rydym yn llwyr gydnabod y sefyllfa anodd yr ydych wedi'i hwynebu wrth ymateb i ddatblygiadau a phenderfyniadau a wnaed mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig (DU), gan sicrhau hefyd nad yw dysgwyr yng Nghymru dan anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn awdurdodaethau eraill. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i amddiffyn lles dysgwyr a fydd yn bryderus am eu canlyniadau.

Un o'n nodau allweddol wrth ddatblygu ein dull yr haf hwn oedd sicrhau bod y canlyniadau'n gymharol debyg i flynyddoedd blaenorol er mwyn sicrhau hygrededd y graddau hynny ac i sicrhau tegwch i ddysgwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Rydym yn parhau i fod yn hyderus bod y dull a gymerwyd o safoni yma yng Nghymru mor deg â phosibl i gynifer o ddysgwyr â phosibl yn amgylchiadau unigryw'r haf hwn. Trwy gydol datblygiad ein dull gweithredu, rydym wedi cydnabod y byddai materion y byddai angen mynd i'r afael â nhw o reidrwydd trwy broses apelio, a estynnwyd gennym mewn ymateb i'ch Cyfarwyddyd blaenorol.

Byddwch yn ymwybodol, er bod y dulliau safoni a ystyriwyd ar draws awdurdodaethau yn debyg, roedd rhai gwahaniaethau yn y modelau a ddefnyddiwyd gan CBAC yng Nghymru o gymharu ag awdurdodaethau eraill y DU. Mae hyn oherwydd bod gwahaniaethau mewn systemau addysg a dyluniadau cymwysterau yn golygu bod y data a oedd ar gael i gyfrifo graddau yn amrywio. Er enghraifft, mae

graddau UG yn dal i fod yn gysylltiedig â graddau Safon Uwch yng Nghymru a Gogledd Iwerddon, ond yn Lloegr nid yw gradd UG yn cyfrannu at radd Safon Uwch.

Mae'n bwysig cydnabod a chofio y casglwyd graddau asesu canolfan gan ganolfannau heb ddisgwyl y byddent yn cael eu defnyddio, i raddau helaeth, fel yr unig sail ar gyfer dyfarnu cymwysterau yr haf hwn. Nid ydym eto wedi cwblhau ein dadansoddiad o'r effaith y bydd defnyddio graddau asesu canolfannau yn ei chael ar fylchau cyrhaeddiad o gymharu â blynyddoedd blaenorol, ond byddwn yn cynnal dadansoddiad cychwynnol i'w gyhoeddi ochr yn ochr â'r canlyniadau TGAU. Bydd y dadansoddiad hwn yn gyfyngedig ond bydd yn ystyried nodweddion fel rhyw, oedran a chymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim. Byddwn yn cynnal dadansoddiad llawnach, gan gynnwys nodweddion ychwanegol fel ethnigrwydd, i'w gyhoeddi'n ddiweddarach. Dylid nodi y gallai fod materion cydraddoldeb yn deillio o'r canlyniadau hyn sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.

Mae ein dadansoddiad o'r graddau asesu canolfannau a gyflwynwyd i CBAC a gyhoeddwyd eisoes yn dangos y bydd dyfarniadau sy'n seiliedig ar raddau asesu canolfannau yn unig yn arwain at godiadau sylweddol mewn canlyniadau o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Bydd hyn yn berthnasol i bob cymhwyster TGAU, UG a Safon Uwch a chymwysterau Tystysgrif Her Bagloriaeth Cymru. Er enghraifft, byddai canlyniadau Safon Uwch o gymharu â 2019 yn cynyddu 6.3 pwynt canran ar gyfer A* a 13.4 pwynt canran ar raddau (cronnus) A* i A. Byddai canlyniadau TGAU yn cynyddu 4.2 pwynt canran ar gyfer A*, 6.6 pwynt canran ar raddau A* i A ac 11.0 pwynt canran ar gyfer A* i C. O'r herwydd, ni fydd y canlyniadau yn 2020 yn gymharol debyg i flynyddoedd blaenorol - nod a nodwyd gennym yn ein hymgynghoriad ar drefniadau ar gyfer yr haf hwn.

Byddwn yn myfyrio'n feirniadol ar ein gwaith yr haf hwn ac rydym yn croesawu eich cyhoeddiad am adolygiad. Bydd hyn yn bwysig wrth i ni ystyried sut mae cyfresi arholiad yn cael eu cynnal tra bod pandemig Covid-19, a'r holl gyfyngiadau y mae hyn yn eu rhoi ar weithgareddau arferol, yn dal i fod yn rhan o fywyd o ddydd i ddydd.

Rydym nawr yn ystyried pa newidiadau fydd eu hangen i’r broses apelio yn dilyn cyhoeddiad y Gweinidog ar 17 Awst a byddwn yn cyhoeddi rhagor o fanylion yn fuan. Fodd bynnag, gan gofio y bydd y graddau a ddyfernir i'r mwyafrif o ddysgwyr yr haf hwn yn seiliedig ar ddyfarniadau a wnaed gan ysgolion a cholegau, ac nid gan CBAC, mae'r seiliau dros apelio yn debygol o aros yn gyfyngedig.

Yr eiddoch yn gywir

David Jones
Cadeirydd

Philip Blaker
Prif Weithredwr